Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol y Cribarth

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol y Cribarth yn amgylchedd dysgu hynod gefnogol a hapus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu pobl eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau bod yn yr ysgol. O fannau cychwyn amrywiol pan fyddant yn ymuno â'r ysgol i ddechrau, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin ystod o fedrau a strategaethau sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da a dangos medrau effeithiol mewn gwahanol feysydd, fel eu medrau digidol a chymdeithasol.

Mae arweinwyr a staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn gofal. Maent yn cynnal cysylltiadau agos â rhieni, ac mae hyn yn helpu creu ethos cymunedol cytûn yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn meithrin a chynnal cymuned ysgol gynhwysol. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a staff yn annog pob un o'r disgyblion i ddangos agwedd gyfrifol mewn gwersi a dangos ymddygiad rhagorol o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb yn eu gwersi ac yn mwynhau'r gweithgareddau dilys niferus y maent yn cymryd rhan ynddynt.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o weithgareddau allgyrsiol cyffrous ac amrywiaeth o ymweliadau addysgol, a ddefnyddir i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae llawer o staff yn defnyddio holi'n dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o wahanol feysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n gweddu'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion yn y ffordd orau, neu'n darparu adborth defnyddiol ac amserol i'w cynorthwyo i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae uwch arweinwyr yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'r ysgol yn adolygu ei chynnydd tuag at nodau gwella yn rheolaidd, er nad yw prosesau monitro bob amser yn arwain at ysgogi gwelliannau dynodedig. O ganlyniad, collir cyfleoedd weithiau i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth gwybodus ac ymroddedig i'r ysgol. Mae'r ysgol wrth wraidd y gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac mae'r corff llywodraethol a'r tîm arweinyddiaeth, ynghyd â'r holl staff a'r partneriaid, yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ganolbwyntio ar anghenion y disgyblion a'u teuluoedd.

# Argymhellion

**A1 Mireinio prosesau gwella'r ysgol a gweithredu'n gyflym ar feysydd i'w datblygu**

**A2 Sicrhau bod pob un o'r athrawon yn darparu adborth defnyddiol ac amserol i gynorthwyo disgyblion i wella'u dysgu**

**A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu her ddigonol ar gyfer disgyblion o bob gallu**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol y Cribarth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 135 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 99 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 30.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 11.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/07/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.